Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Ebrill 2017

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys Maldwyn Owen – Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Edward Evans, Richard Parry – Bryncir, Megan Ll Williams, Amanda N Owen – Golan, Dafydd Thomas – Penmorfa. Cynghorydd Stephen Churchman. (Gadawodd y Cynghorydd Gwilym Evans y cyfarfod am 7.30 pm).

2 Ymddiheuriadau – Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Eifion Williams, Huw Pritchard, Clifford Williams.

Derbyniwyd e-bost gan Elen Williams yn datgan na fydd yn sefyll fel cynrychiolydd dros Benmorfa yn yr etholiad mis Mai. Penderfynwyd ysgrifennu at Elen i ddiolch iddi am ei chyfraniad dros y blynyddoedd a'i pharodrwydd i ymgymryd â gwaith cyfieithu rhai o ddogfennau'r Cyngor.

Diolchwyd ar lafar i'r Cynghorydd Stephen Churchman am ei waith yn ystod y tymor diwethaf a phenderfynwyd gyrru e-bost at Alwyn Gruffydd i ddiolch iddo yntau hefyd.

3 Ddim yn bresennol – Daniel Thomas.

4 Datgan Buddiant – Eitem 13 Cynllunio – Edward Evans, Eitem ychwanegol National Grid – Richard Parry.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion 2/3/17. Dafydd Thomas yn cynnig eu bod yn gywir ac Anwen Humphreys yn eilio. Derbyn yn unfrydol.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Golan – materion priffyrdd – Gordyfiant – Archwiliwr Ffordd i ymweld â'r safle i asesu dilysrwydd ymarfer camau gorfodaeth. Glanhau'r ffôs ger Drws Deugoed wedi ei nodi a'i gynnwys ar y rhaglen waith. Gwaith torri coed ger Cefn Coch – nid y Cyngor oedd yn gyfrifol am y gwaith, ond fe wneir ymholiadau pellach gyda'r perchennog/deilydd tir.

Cynrychiolaeth o'r Cyngor ar Lywodraethwyr Ysgol y Gorlan - Penderfynwyd y byddai Megan L Williams yn cael ei hethol i gymryd lle Elen Williams ar Lywodraethwyr Ysgol y Gorlan. Dafydd Thomas yn cynnig a Richard Parry yn eilio.

Pont y Traeth/Pont Croesor - Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi fod Pont Croesor wedi ei adeiladu fel rhan o dramwy chwarel Croesor a bod yr enw yn ymddangos ar fapiau Arolwg Ordnans ers 1898. Mae'r gwaith papur a gedwir gan y Cyngor yn dangos fod strwythur llai, sef cylfat rhyw 200 llath gyfagos, o'r enw Pont Traeth. Byddai cyfnewid enwau yn creu dryswch o fewn systemau rheoli asedau'r Cyngor i'r dyfodol. Penderfynwyd cysylltu hefo'r Cyngor i'w hysbysu mae Pont Croesor yw'r enw ar bont y rheilffordd ac mae Pont Traeth yw'r enw ar bont y ffordd.

Dyddiad a lleoliad y Cyfarfod Blynyddol – nos Iau 11eg o Fai am 7 pm yn Festri Capel Bryncir. Clerc i holi Unllais Cymru os yw'n angenrheidiol darparu gwasanaeth cyfieithu, ac os oes rhaid, i drefnu hyn.

Mynwent Bethel – mae Dylan Edwards wedi cytuno gwneud y gwaith am £150.

Lôn Mynwent Prenteg - Adroddwyd fod cyflwr y ffordd yn dderbyniol.

7 Mynwentydd

Tyn Llan Penmorfa - Adroddwyd fod gwair oedd wedi ei dorri wedi cael ei adael yn y fynwent. Clerc i gysylltu ag Idris Jones.

8 Llwybrau Cyhoeddus – Llwybr Cyhoeddus Golan - Cafwyd cyfarfod gyda Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Tramwy, Cyngor Gwynedd. Bwriedir gwneud mwy o waith ar y llwybr a bydd Cyngor Gwynedd yn hysbysu'r Cyngor Cymuned pan fydd hyn wedi cael ei wneud.

Llwybr o Ereiniog draw at Ysgol a Chapel Cwm Ystradllyn - Mae Dewi Wyn Owen am gerdded hwn a chysylltu gyda'r Cyngor Cymuned.

Nant Heddwch i Bryn Moel - cyflwr gwlyb. Penderfynwyd cerdded y llwybr cyn y cyfarfod nesaf.

Ad-daliad am cynnal hawliau tramwy - Uchafswm taliad 2017/2018 bydd £886.00.

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin - Adroddodd y Cynghorydd Stephen Churchman fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus yn ei cais i gael grant ar gyfer gwelliannau i'r lôn rhwng Llanystumdwy a Phorthmadog. Bydd mwy o fanylion ar gael mewn tua 2 fis. Trafodwyd y pwysigrwydd o gael mannau i dynnu fewn ar y lôn rhwng Porthmadog a Criccieth.

Cais i brynu llechi lloches bws Pont y Wern – cyfeirio at Stad y Wern.

Golan

Braich y Big – pont wedi dymchwel.

Ciosg Cwmystradllyn

Derbyniwyd e-bost gan un o'r preswylwyr yn cynnig cynnal a chadw'r ciosg os byddai'r Cyngor yn fodlon i'w brynu. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Cynllunio a BT.

Prenteg

Arwydd Prenteg wrth Cwm Mawr - angen gosod yr arwydd newydd.
Pont Aberglaslyn i Nantmor ffordd wedi cau - petai'r lôn yn cael ei gau eto, gofyn a yw'n bosib sicrhau fod arwyddion yn nodi lôn arall i'w ddilyn yn cael ei gosod.
Cyffordd am Garreg - Nid yw'r postyn hefo arwyddion ffyrdd o gyfeiriad Beddgelert yn dangos lle mae rhywun yn mynd wrth droi i'r chwith.
Lleoliad y postyn gyda arwyddion masnachol yn gwneud hi'n anodd i rywun sy'n gyrru cerbyd uwch na char i weld rhywun ar feic yn dod o'r cyfeiriad arall.
Prenteg - mae prif arwydd Cwmystradllyn wedi disgyn a mynd oddi yno. Yn yr un gyffordd wrth y lloches bws, cafodd arwyddion Caernarfon/Porthmadog eu plygu a'u tynnu lawr. Nid ydynt wedi cael ei ail-osod.
Arwydd Cae Chwarae - ers gosod polyn trydan newydd, mae arwydd y Cae Chwarae yn gwynebu i ffwrdd oddiwrth y cae. A yw'n bosib i'w ail-osod i wynebu'r ffordd gywir?
Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynglŷn â materion Golan a Phrenteg. Cynnig trefnu cyfarfod safle ym Mhrenteg os oes angen.

Penmorfa – Ffordd Haearn Bach - trafodwyd pwysigrwydd defnyddio'r enw cywir.

10 Gwefan - Adroddodd y Clerc ei bod wedi gyrru'r wybodaeth a dogfennau at Cymru1. Bydd angen ychwanegu hanes yr ardal a lluniau i'r wybodaeth. Clerc i gysylltu ag un o breswylwyr Cwm Pennant i holi am luniau o'r ardal.

11 [redacted] Eitem caeëdig.

Eitem ychwanegol i'r Agenda

Grid Cenedlaethol – Is-orsaf ym Mryncir Derbyniodd y Clerc e-bost gan Luned Evans, Unllais Cymru yn gofyn iddi dynnu sylw'r Cynghorwyr at y digwyddiadau ymgynghorol gan y Grid Cenedlaethol, yn cael eu cynnal dydd Sadwrn 8fed o Ebrill a dydd Mercher 12fed o Ebrill ym Mryncir. Y bwriad yw cario trydan o'r Wylfa Newydd. Nodwyd fod mater yn un o bwysigrwydd i'r ardal ac yn fater o bwys mawr gan Unllais Cymru. Hoffai Unllais Cymru cael adborth os byddai'r Cynghorwyr yn fodlon ei rannu.

12 Gohebiaeth

a Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Gwaith priffyrdd ym Mhrenteg. Rhybudd etholiad. Adolygiad y Comisiwn Ffiniau Etholiadaethol yng Ngwynedd.

b Gohebiaeth ychwanegol
Parc Cenedlaethol Eryri – dyddiadau i'r dyddiadur.

c IRPW Adroddiad Blynyddol

ch Bwletin Newyddion Unllais Cymru – Themau archwiliadau allanol
2016-2017 – canolbwyntio ar y trefniadau a wneud gan gynghorau i fabwysiadu'r Côd Ymddygiad.
2017-2018 – gwaith archwilio mewnol.
2018 – 2019 – ymateb i'r Deddf Llesiant.

d Cyngor Iechyd Cymunedol – Dementia.

dd Llythyrau/e-byst yn diolch am rhoddion ariannol – Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog, Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch, Y Gorlan Fach, Tremdog, Canolfan Gymdeithasol Golan, Shelter Cymru a Parêd Dewi Sant.

e Penodi aelod i Gyngor Partnerniaeth y Gymraeg – er gwybodaeth.

f Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i Bwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon – er gwybodaeth.

ff Penodi Is-lywydd i Llyfrgell Cenedlaethol Cymru – er gwybodaeth.

13 Cynllunio

Rhestrau 3/3, 20/3, 27/3, 30/3/17, 3/4/17.

Cais C17/0217/36/LL – Codi sied amaethyddol Llystyn Isaf, Bryncir, Garndolbenmaen. LL51 9 LX Sylwadau erbyn 30/3/17. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad.

Gwybodaeth am ddefnydd y tir - Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnyddio tir i leoli carafanau teithiol, carafanau modur a pebyll – Mynydd Du, Criccieth.

14 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: - Cylch Meithrin Garndolbenmaen £150, Canolfan Gymunedol Garndolbenmaen - £300.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £225.64
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.40

Unllais Cymru	= £ 192.00
Idris Jones	= £ 120.00
Yr Wylan Ychwanegwyd	= £ 15.00
Gwasg y Bwthyn	= £ 9.22

Derbyniadau – £262.50 Pritchard & Griffiths (claddu llwch y diweddar [redacted]

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £20,268.87. Cyfredol - £1,290.77

15 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Eglwys St. Michael's Llanfihangel-y-Pennant.
- Pont Traeth/Pont Croesor.
- Ad-daliad llwybrau cyhoeddus.
- Etholiad Mai 2017.
- Cyfarfod blynyddol y Cyngor.